

353 - Cystadleuaeth Creu Ffilm BI 6 ac iau

Beirniad – Eilir Pierce

1af

Llandwrog

Arddull animeiddiedig trawiadol. Hiwmor yn y stori a'r perfformiadau. Dod a'r stori yn fyw, mewn ffordd dramatig a gwreiddiol. Mae ôl gwaith mawr ar y cynhyrchiad yma wrth weld yr holl waith animeiddio

2il

Y Dderwen

Cyfuniad perffaith o ddiniweidrwydd a soffistedigrwydd yn y deallusrwydd o iaith weledol y sinema. Effeithiau arbennig anhygoel. Golygu a defnydd sain oedd yn cydio. Mae posib gweld stamp pobl ifanc ar y gwaith yma. Gwych.

3ydd

Elidir

Mae'r gwaith yma yn dweud y stori mewn ffordd oedd yn cymysgu genre's yn effeithiol. Rhoi cydestun i chwarel y penrhyn cyn mynd fewn i'r golygfeydd drama. Teimlad o ddogfen drama oedd yn neud o yn berthnasol i gynulleidfa ifanc. Perfformiadau da gan y bobl ifanc ar gamera.